



Ein cyf/Our ref WQ82430

Siân Gwenllïan AS/MS

Sian.Gwenllïan@senedd.wales

10 Mehefin 2021

Annwyl Siân,

Diolch am eich am eich cwestiwn ysgrifenedig dyddiedig 19 Mai yn gofyn yn cyhoeddi canllawiau ynglŷn ag ail-agor canolfannau addysg awyr agored ar gyfer cyrsiau preswyl i ddisgyblion ysgol

Gadewch imi eich sicrhau fy mhod yn deall y rôl bwysig y mae ymweliadau addysgol yn ei chwarae o ran cyfoethogi addysgu a dysgu yn ogystal â chefnogi lles dysgwyr. Fodd bynnag, mae cadw pobl Cymru'n ddiogel a lleihau trosglwyddo y feirws Covid-19 yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni.

Mae symud i Lefel Rhybudd 2 ein Cynllun i Reoli'r Coronafeirws wedi ei gwneud yn bosibl i bob llety gwyliau, gan gynnwys canolfannau addysg awyr agored, ailagor ers 17 Mai – gan ddarparu llety i aelodau o'r un aelwyd neu aelwyd estynedig (neu unrhyw un sy'n ofalwr i aelod o'r aelwyd).

Yn unol â [datganiad ysgrifenedig 4 Mehefin](#) Prif Weinidog Cymru, ni chaniateir i sawl aelwyd rannu llety yng Nghymru hyd nes inni symud i Lefel Rhybudd 1, pan gaiff chwech o bobl o chwe aelwyd wahanol (heb gynnwys plant o dan 11 oed na gofalwyr) rannu llety gwyliau. Mae hyn yn berthnasol i bob llety gwyliau, gan gynnwys canolfannau addysg awyr agored. Y cyngor i ysgolion mewn perthynas â theithiau addysgol yw bod yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r rheoliadau sydd ar waith yng Nghymru ar y pryd. Felly, yng Nghymru, ni chaniateir teithiau addysg preswyl sy'n ei gwneud yn ofynnol i lety gael ei rannu gan nifer o aelwydydd hyd nes inni symud i Lefel Rhybudd 1.

Rydym fel llywodraeth yn parhau i adolygu'r cyngor gwyddonol sydd ar gael ac sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd, ac mae'r trafod yn parhau ynghylch pryd y byddwn yn symud i Lefel Rhybudd 1.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa i gefnogi'r sector addysg awyr agored breswyl yng Nghymru yn ystod y cyfnod anodd hwn, drwy roi dyraniad cychwynnol o £2m. Bydd y gronfa hon yn rhoi cymorth ariannol i ganolfannau cymwys ledled Cymru er mwyn iddynt dalu costau gweithredu hanfodol yn ystod y cyfnod rhwng mis Mehefin a mis Medi 2021. Cafodd y manylion llawn mewn perthynas â'r meini prawf cymhwysra ar gyfer y Gronfa, gan gynnwys Ffurflen Mynegi Diddordeb ar-lein, eu cyhoeddi ar dudalennau gwe Busnes Cymru ar 14 Mai – [COVID-19 Cymorth i Fusnes](#)

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400


Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth yma yn rhoi eglurder ar y sefyllfa bresennol a'r camau nesaf.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, consisting of a stylized 'J' followed by a series of loops and a horizontal line.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Minister for Education and Welsh Language